Newyddlen Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru

Rhifyn 4 - Mai 2026

# Institute for the Study of Welsh Estates Newsletter

Issue 4 - May 2026



## Croeso

## Welcome

Ers dechrau'r flwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio ar ddrafft strategaeth deng mlynedd newydd ar gyfer Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru. Rydym wedi mwynhau'r ymarfer hwn yn fawr i ddweud y gwir – roedd yn brofiad ysgogol dros ben! Mae wedi ein galluogi i adfyfyrio ynghylch yr hyn rydym wedi'i gyflawni dros y degawd diwethaf – rwy'n hynod falch o'n llwyddiannau – ond hefyd i archwilio cyfleoedd newydd a'n cynlluniau yn y dyfodol. Credwn fod gan Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru lawer iawn i'w gyfrannu o hyd at fywyd diwylliannol a deallusol Cymru.

Rydym yn teimlo mai dyma'r amser iawn i nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac mewn ffordd sy'n uchelgeisiol i Brifysgol Bangor, yn ogystal ag er budd y rhan annatod a chadarnhaol y gall hanes, archifau a threftadaeth ei chwarae fel rhan o Gymru hyderus ac allblyg – o ran cymdeithas, diwylliant ac economi – sy'n ffynnu i'r genhedlaeth nesaf.

Mae 2026 yn flwyddyn o drawsnewid i Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru. Edrychwn ymlaen at ymuno ag Ysgol newydd y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn ddiweddarach yn yr haf, ac rydym wrth ein bodd bod yr Athro Carol Tully wedi cytuno i gymryd yr awenau gan yr Athro Robin Grove-White fel Cadeirydd ein Bwrdd Ymgynghorol, i helpu i arwain y cam nesaf yn natblygiad y Sefydliad.

Dros y misoedd nesaf, edrychwn ymlaen at rannu ein gweledigaeth gyda chi – ein cefnogwyr, ffrindiau a phartneriaid – a byddem yn gwerthfawrogi yn fawr eich mewnbwn a'ch arweiniad ar ein blaenoriaethau ar gyfer y deng mlynedd nesaf.

**Dr Shaun Evans**

**Cyfarwyddwr ISWE**

**Since the beginning of the year, we've been working on the draft of a new ten-year strategy for the Institute for the Study of Welsh Estates. This exercise has actually been really enjoyable – invigorating, even! It's allowed us to reflect on what we've accomplished over the last decade – I'm immensely proud of what we've achieved – but also to explore new opportunities and our future direction of travel. We believe that ISWE still has a great deal to contribute towards the cultural and intellectual life of Wales.**

**We feel that now is right time to set out our vision for the future, and in a way that is ambitious not only for Bangor University, but for the positive and integral role that history, archives and heritage can play as part of a self-confident and outward-facing Wales – society, culture and economy – that thrives into the next generation.**

**2026 is a year of transition for ISWE. We're looking forward to joining the new School of Arts and Humanities later in the summer, and are delighted that Prof. Carol Tully has agreed to take over from Prof. Robin Grove-White as Chair of our Advisory Board, to help guide the next stage in ISWE's development.**

**Over the coming months we look forward to sharing our vision with you – our supporters, friends and partners – and would greatly appreciate your input and guidance on our priorities for the next ten years.**

**Dr Shaun Evans**

**Director of ISWE**



## Cefnogi ein gwaith

Ers i ni sefydlu, rydym wedi elwa ar gefnogaeth, mewnbwn ac anogaeth cymaint o unigolion a sefydliadau ledled Cymru a thu hwnt. Mae'r gefnogaeth hon yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n gwaith ac rydym yn awyddus i sicrhau ei bod yn bwydo i'n blaenoriaethau ar gyfer y deng mlynedd nesaf.

Os gallwch roi'r amser, byddem yn ddiolchgar iawn am eich adborth ar y cwestiynau canlynol:

1) Pam mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn bwysig i chi neu'r sefydliad/grŵp rydych chi'n ei gynrychioli?

2) Beth sy'n nodedig neu'n arbennig am Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru?

3) Beth hoffech chi i Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ei wneud a'i gyflawni yn y dyfodol? Ble a sut gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol?

4) Sut hoffech chi fod yn rhan o ddyfodol Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru?

5) Ydych chi'n teimlo bod cynllun Cyfeillion Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, yn seiliedig ar roddion blynyddol rheolaidd gan gefnogwyr o £25, £50 neu £100, yn hyfyw? Ac os byddech chi'n cefnogi cynllun o'r fath, beth fyddech chi ei eisiau yn gyfnewid?

Anfonwch unrhyw ymatebion drwy e-bost at iswe@bangor.ac.uk.

Diolch!

## Support our work

**From the time of our establishment, we have benefitted from the support, input and encouragement of so many individuals and organisations across Wales and beyond. This support makes a real difference to our work and we are keen to ensure that it feeds into our priorities for the next ten years.**

**If you can spare the time, we would be ever so grateful for your feedback on the following questions:**

**1) Why does ISWE matter to you or the organisation/group that you represent?**

**2) What is special or distinctive about ISWE?**

**3) What do you want ISWE to do and deliver into the future? Where and how can we make a real difference?**

**4) How would you like to be involved in ISWE's future?**

**5) Do you feel that a Friends of ISWE scheme, based on regular annual gifts from supporters of £25, £50 or £100, is viable? And if you were to support such a scheme, what would you want in return?**

**Please email any responses to iswe@bangor.ac.uk.**

**Thank you!**

## Newyddion ISWE

## ISWE News



## Penodi Cadeirydd newydd ar gyfer Bwrdd ISWE

## New Chair appointed for ISWE Board

Mae'n bleser gennym gyhoeddi penodiad yr Athro Carol Tully yn Gadeirydd newydd ein Bwrdd Ymgynghorol. Mae'r Athro Tully yn dod ag arbenigedd academaidd helaeth i'r rôl: mae hi wedi meithrin enw da rhyngwladol fel ysgolhaig ym maes cyfnewid diwylliannol a llenyddol yn Ewrop yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac roedd hi'n Brif Ymchwilydd ar y project nodedig a ariannwyd gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC), *European Travellers to Wales*. Mae Carol hefyd yn dod â rhinweddau arweinyddiaeth cryf: cyn iddi ymddeol yn 2025 bu'n gwasanaethu mewn nifer o rolau arweinyddol ym Mhrifysgol Bangor, ac mae wedi dal sawl rôl ymgynghorol gyda Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

Corff allanol yw ein Bwrdd Ymgynghorol, a sefydlwyd yn 2016, sy'n cynnwys arbenigwyr ac aelodau'r gymuned y mae eu harbenigedd a'u sgiliau'n cyd-fynd â buddiannau Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru. Mae'r Bwrdd yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn a'i rôl yw trafod a chynghori ynghylch datblygiad hirdymor y Sefydliad a chynnig syniadau a chyngor am faterion sy'n ymwneud â'n proffil cyhoeddus, cysylltiadau â rhanddeiliaid, hunaniaeth ddeallusol a strategaethau cyllido. Mae gwaith eisoes ar y gweill ar Gynllun Strategol deng

**We are delighted to announce the appointment of Prof. Carol Tully as the new Chair of our Advisory Board. Prof. Tully brings extensive academic expertise to the role: she has established an international reputation as a scholar in the area of European cultural and literary exchange in the nineteenth century, and she was Principal Investigator on the landmark AHRC-funded *European Travellers to Wales* project. Carol also brings strong leadership attributes: prior to her retirement in 2025 she served in several leadership roles at Bangor University, and has held several advisory roles with the AHRC.**

**Our Advisory Board, established in 2016, is an external body consisting of experts and community members whose expertise and skills align with ISWE's interests. The Board meets twice a year, and its role is to provide a sounding board for our long-term development and to offer insights and advice on matters relating to our public profile, stakeholder relations, intellectual identity and funding strategies. Work is already underway on an exciting new ten-year Strategic Plan, which will guide ISWE's priorities and vision for the next decade.**

mlynedd newydd cyffrous, a fydd yn arwain blaenoriaethau a gweledigaeth Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru dros y degawd nesaf.

Mae'r Athro Tully yn olynu'r Athro Robin Grove-White, a chwaraeodd ran annatod yn sefydlu a datblygu Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru. Hoffai pawb sy'n gysylltiedig â'r ganolfan ymchwil ddiolch i Robin am ei gyfraniad aruthrol a'i gefnogaeth barhaus.

Gallwch ddarllen mwy am y penodiad cyffrous hwn ar ein gwefan.

**Prof. Tully succeeds Prof. Robin Grove-White, who played an integral role in the establishment and development of ISWE. Everyone associated with the research centre would like to thank Robin for his immense contribution and continuing support.**

**You can read more about this exciting appointment on our website.**




## Llyfr ISWE yn ennill gwobr Cymdeithas Hanes Amaethyddol Prydain 2026

## ISWE book awarded 2026 British Agricultural History Society prize

Mae Dr Shaun Evans wedi ennill Gwobr Goffa Joan Thirsk 2026 gan Gymdeithas Hanes Amaethyddol Prydain am y Llyfr Gorau yn y categori Hanes Gwledig neu Hanes Amaethyddol Prydain neu Iwerddon.

Dyfarnwyd y wobr i Shaun am ei lyfr, *Coming of Age Celebrations on Welsh Landed Estates: Gentry, Culture and Society, c.1770–1920*, a gyhoeddwyd gan Boydell & Brewer y llynedd.

**Dr Shaun Evans has been awarded the 2026 Joan Thirsk Memorial Prize by the British Agricultural History Society for the Best Book in British or Irish Rural or Agrarian History.**


**The Prize was awarded for Shaun's book on *Coming of Age Celebrations on Welsh Landed Estates: Gentry, Culture and Society, c.1770–1920*, published by Boydell & Brewer last year.**

Wrth ddyfarnu'r wobr i Dr Evans, nododd y Pwyllgor Gwobrwyo fod Coming of Age Celebrations on Welsh Landed Estates "yn llenwi bwlch sylweddol wrth egluro sut roedd ystadau tiriog yn gweithio yng Nghymru. Drwy ddull rhyngddisgyblaethol sy'n cyfuno dadansoddi fforensig â disgrifiadau bywiog, mae Evans yn defnyddio dathliadau dod i oed i ddarparu dealltwriaeth ddiddorol i gymunedau cyfan, gan gynnwys y rhai sydd ar frig ac ar waelod hierarchaethau cymdeithasol."

Gallwch ddysgu mwy am wobr Shaun ar ein [gwefan](#).

**In making the award to Dr Evans, the Prize Committee noted that Coming of Age Celebrations on Welsh Landed Estates "fills a significant gap in explaining how landed estates worked in Wales. Through an interdisciplinary approach which combines forensic analysis with vivid descriptions, Evans uses coming of age celebrations to provide a fascinating window onto whole communities, encapsulating those at the top and bottom of social hierarchies."**

**You can find out more about Shaun's award on our [website](#).**




## Lansio Llyfr: *Coming of Age Celebrations on Welsh Landed Estates*

## Book Launch: Coming of Age Celebrations on Welsh Landed Estates

Ym mis Hydref, daeth cydweithwyr a ffrindiau ynghyd ym Mhrifysgol Bangor i lansio llyfr newydd Dr Shaun Evans, *Coming of Age Celebrations on Welsh Landed Estates: Gentry, Culture and Society, c.1770–1920*. Cyhoeddwyd gan Boydell & Brewer ym mis Medi 2025, mae'r llyfr hwn yn torri tir newydd fel yr astudiaeth gynhwysfawr gyntaf o ddathliadau dod i oed – digwyddiadau a gynhaliwyd i nodi pan ddoi etifedd neu etifeddes i lawn oed, sef un ar hugain oed, ac felly gallent etifeddu ystad diriog yn swyddogol a chymryd rôl 'landlord'.

Cafodd y rhai a oedd yn bresennol yn y lansiad y pleser o glywed sgwrs ddiddorol iawn rhwng Dr Evans a Dr Lowri Ann Rees. Yn ogystal â dysgu am natur dathliadau dod i oed a'r hyn y gallant ei ddweud wrthym am ddiwylliant y bonedd a'r perthnasoedd rhwng tirfeddianwyr a thenantiaid yng Nghymru, diddanodd Shaun

**Back in October, colleagues and friends gathered at Bangor University for the launch of Dr Shaun Evans's new book, *Coming of Age Celebrations on Welsh Landed Estates: Gentry, Culture and Society, c.1770–1920*. Published by Boydell & Brewer in September 2025, this book breaks new ground as the first comprehensive study of coming of age celebrations – events which were held to mark the twenty-first birthday of an heir or heiress, when they attained their legal majority and could therefore officially inherit a landed estate and assume the role of 'landlord'.**

**Attendees of the launch were treated to a fascinating conversation between Dr Evans and Dr Lowri Ann Rees. As well as learning about the nature of coming of age celebrations and what they can tell us about gentry culture and landowner-tenant**

bawb hefyd gyda hanesion lliwgar am rai o'r dathliadau mwy afradlon.

Gallwch ddarllen adroddiad llawn o’r trafodion ar ein gwefan yma.

Mae’r llyfr ar gael i'w brynu o wefan Boydell & Brewer. Mae defnyddio'r cod disgownt EMH26 yn rhoi gostyngiad o 50% a chludiant am ddim tan 31 Mai 2026.

**relationships in Wales, Shaun also entertained everyone with colourful accounts of some of the more extravagant celebrations.**

**You can read a full report of the proceedings on our website here.**

**The book available to purchase from the Boydell & Brewer website. Using discount code EMH26 gives 50% off and free shipping until 31 May 2026.**



## Darlith Flynyddol yn archwilio'r Arglwyddes Llanofer ac Ailddyfeisio Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg

## Annual Lecture explores Lady Llanover and the Reinvention of Wales in the Nineteenth Century

Yn gynharach y mis hwn, roeddem wrth ein bodd yn croesawu Dr Marion Löffler, Darllenydd mewn Hanes Cymru a Hanes a Phennaeth Hanes ym Mhrifysgol Caerdydd, i Fangor i draddodi ail Ddarlith Flynyddol Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru. Mae'r Ddarlith Flynyddol yn gyfle i rannu ymchwil diweddar a pharhaus ar themâu sy'n bwysig i ni fel Sefydliad, ac roedd cyflwyniad Dr Löffler yn cyfuno dau o'n prif ddiddordebau: hanes menywod a'r rôl a chwaraeodd boneddigion Cymru wrth siapo hunaniaeth Cymru.

Pwnc y ddarlith oedd yr Arglwyddes Augusta Hall (1802–1896) o Dŷ Llanofer yn Sir Fynwy,

**Earlier this month, we were delighted to welcome Dr Marion Löffler, Reader in Welsh History and History and Head of History at Cardiff University, to Bangor to deliver ISWE’s second Annual Lecture. The Annual Lecture is a chance to share recent and ongoing research on themes which are important to us as an Institute, and Dr Löffler’s presentation combined two of our primary interests: women’s history and the role that the Welsh gentry played in shaping the identity of Wales.**

**The subject of the lecture was Lady Augusta Hall (1802–1896) of Llanover House in**

ffigur canolog yn adfywiad cenedlaethol Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a gweithiodd ar hyd ei hoes hir i hyrwyddo nodweddion diwylliannol a chenedlaethol Cymru. Archwiliodd Marion gyfraniadau amrywiol yr Arglwyddes Llanofer trwy lens ei rhwydwaith cymdeithasol, a oedd yn cynnwys pobl o bob dosbarth cymdeithasol o'r teulu brenhinol i'w thenantiaid dosbarth gweithiol, ac oedd yn ymestyn cyn belled â chyrion dwyreiniol Ymerodraeth Prydain.

Mae modd darllen adroddiad cryno o'r digwyddiad yma.

**Monmouthshire, a central figure of the Welsh national revival in the nineteenth century who dedicated her long life to furthering the cultural and national characteristics of Wales. Marion explored Lady Llanover's various contributions through the lens of her extensive social network, which included people of all social classes from royal personages to her working-class tenants, and extended as far as the eastern edge of the British Empire.**

**You can read a summary report of proceedings here.**




## ISWE yn arloesi modiwl MA newydd ar 'Ail-ddehongli'r Plasty'

## ISWE pioneers new MA module on 'Reinterpreting the Country House'

Ym mis Medi 2025, roedd yn bleser gan Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru lansio modiwl newydd o'r enw 'Ail-ddehongli'r Plasty: Archifau, Dehongliad a Hanes Cymru' i fyfyrwyr ar raglenni MA Treftadaeth Fyd-eang, Hanes a Hanes Cymru ym Mhrifysgol Bangor. Wedi'i gyd-gynllunio gan Dr Lowri Ann Rees a Dr Shaun Evans, mae'r modiwl yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddysgu o waith Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru a chyfrannu ato.

Mae'r cwrs yn cynnwys sesiynau pwrpasol ar amrywiaeth o themâu megis tirwedd, diwylliant materol, llyfrgelloedd, hanes merched, cysylltiadau trefedigaethol a hanes cymdeithasol. Cynhelir y rhan fwyaf o'r sesiynau yn adran Archifau a Chasgliadau Arbennig

**In September 2025, ISWE was delighted to launch a new module called 'Reinterpreting the Country House: Archives, Interpretation and the Histories of Wales' for students on Bangor University's Global Heritage, History and Welsh History MA programmes. Co-designed by Dr Lowri Ann Rees and Dr Shaun Evans, the module provides students with an opportunity to learn from and contribute towards the work of ISWE.**

**The course includes dedicated sessions on a range of themes such as such as landscape, material culture, libraries, women's history, colonial connections and social history. Most of the sessions take place within Bangor University Archives and Special**

Prifysgol Bangor, ac mae yna hefyd deithiau maes i safleoedd treftadaeth cyfagos megis Castell Penrhyn ac Amgueddfa Storiel. Dros gyfnod y modiwl, anogir myfyrwyr i archwilio'r ymchwil diweddaraf i mewn i ddiwylliant y bonedd, ystadau tiriog a phlastai, ac ymarfer gorau wrth ymgysylltu â'r cyhoedd a dehongli treftadaeth.

**Collections, and there are also fieldtrips to nearby heritage sites such as Penrhyn Castle and Storiel Museum. Over the course of the module, students are encouraged to interrogate the latest research in gentry culture, landed estates and the country house, and best-practice in public engagement and heritage interpretation.**



## Bywyd ac Etifeddiaeth yr Arglwyddes Margaret Verney wedi'i archwilio gan fyfyriwr MA

## Life and Legacy of Lady Margaret Verney explored by MA student

Ym mis Chwefror roeddem yn falch o gyhoeddi postiad blog gan Issy Marston, myfyrwraig ôl-radd, a gynhyrchwyd fel rhan o'r modiwl MA newydd ‘Ail-ddehongli'r Plasty’.

Un o brif amcanion y modiwl yw rhoi’r offer i fyfyrwyr greu dehongliad treftadaeth o ansawdd uchel yn seiliedig ar ymchwil gwreiddiol i archifau, casgliadau a thirweddau. Ar gyfer yr asesiad, gofynnir i fyfyrwyr ddylunio a chyflwyno ‘ymyrraeth ddehongli’, yn seiliedig ar ymchwil sylfaenol ac ymarfer gorau ym maes treftadaeth.

Y blog rhagorol hwn oedd ‘ymyrraeth ddehongli’ Issy: mae'n trafod y Fonesig Margaret Verney (1844–1930) o Rhianfa, sef yr awdur, hanesydd a hyrwyddwr addysgol a oedd yn rhan o ddatblygiad cynnar Prifysgol Bangor. Diolch am rannu dy waith rhagorol gyda ni, Issy!

**In February we were pleased to publish a blog post by postgraduate student Issy Marston, which was produced as part of the new ‘Reinterpreting the Country House’ MA module.**

**One of the module’s primary aims is to equip students with the tools to create high-quality heritage interpretation based on original research of archives, collections and landscapes. For the assessment, students are asked to design and deliver an ‘interpretation intervention’, based on primary research and heritage best-practice.**

**This excellent blog was Issy’s ‘interpretation intervention’: it discusses the author, historian and educational promoter Lady Margaret Verney (1844–1930) of Rhianfa, who was involved in the early development of Bangor University. Thanks for sharing your excellent work with us, Issy!**




## Dathlu llwyddiant Dr Bethan Scorey - Chweched myfyriwr doethurol graddedig ISWE

## Dr Bethan Scorey becomes ISWE's sixth doctoral graduate

Llongyfarchiadau mawr i Dr Bethan Scorey, a raddiodd yn Seremoni Graddio Gaeaf Prifysgol

**Huge congratulations to Dr Bethan Scorey, who graduated at Bangor University’s Winter**

Bangor ar ôl pasio ei harholiad *viva voce* ym mis Mehefin 2025. Cafodd Bethan gwmni ei goruchwylwyr, Dr Shaun Evans a Dr Lowri Ann Rees, yn ogystal â'i theulu, yn y seremoni Nadoligaidd iawn ar 17 Rhagfyr.

Pwnc ymchwil doethurol Bethan oedd Castell Sain Ffagan yng Nghaerdydd, sef plasty rhestredig Gradd I o oes Elisabeth, sy'n gartref i Amgueddfa Hanes Genedlaethol Sain Ffagan. Gallwch ddarllen mwy am gasgliadau ei phroject yn ein postiad blog yma. Mae Dr Scorey bellach yn edrych ymlaen at gyhoeddi ei monograff am Gastell Sain Ffagan gyda Gwasg Prifysgol Cymru'n ddiweddarach eleni.

**Graduation Ceremony having passed her *viva voca* examination in June 2025. Bethan was joined by her supervisors Dr Shaun Evans and Dr Lowri Ann Rees, as well as her family, at the very festive ceremony on 17th December.**

**The subject of Bethan's doctoral research was the Grade I-listed, Elizabethan country house St Fagans Castle in Cardiff, which is home to St Fagans National Museum of History. You can read more about the conclusion of her project in our blog post here. Dr Scorey is now looking forward to the publication of her monograph on St Fagans Castle with University of Press later this year.**




## Ymchwilydd Doethurol ISWE yn cyflwyno yn Yr Oriel Genedlaethol

## ISWE Doctoral Researcher presents at The National Gallery

Rydym yn hynod falch o'n Hymchwilydd Doethurol, Daisy Hughes, a gynrychiolodd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yng Nghynhadledd Flynyddol y Grŵp Plastai i Fyfyrwyr Ôl-radd ac Ymchwilwyr ar Ddechrau eu

**We are extremely proud of our Doctoral Researcher, Daisy Hughes, who represented ISWE at The Annual Postgraduate and Early Career Researcher (PGCER) Country House Group Conference in London on 6th March.**

Gyrfa (PGCER) yn Llundain ar 6 Mawrth. Mae'r grŵp yn cynnwys dros gant o ymchwilwyr doethurol o brifysgolion, tai hanesyddol a sefydliadau celfyddydol sy'n astudio gwahanol agweddau ar blastai Prydain. Ar gyfer eu trydedd gynhadledd flynyddol, partnerodd y Grŵp â'r Oriel Genedlaethol yn Llundain, gan roi cyfle i aelodau gyflwyno eu hymchwil ym mhrif ddarlithfa'r Oriel, ac i gynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, English Heritage, Ymddiriedolaeth Attingham, a Chanolfan Paul Mellon.

Mae ymchwil Daisy yn canolbwyntio ar ferched a phlastai gwledig; mae ei phroject doethurol yn ceisio ail-greu ac ailgydbwyso hanesion plastai gwledig i gynnwys yn llawn y merched a'r rolau yr oeddent yn eu chwarae, eu pwysigrwydd a'u gwaddol, gydag astudiaeth achos ranbarthol sy'n rhychwantu Swydd Gaer a gogledd Cymru. Teitl ei phapur oedd 'The Invisible Work of Feeling: Emotional Labour and Country House Women, 1600–1800', ac fe'i cyflwynwyd fel rhan o banel olaf y diwrnod, a oedd yn canolbwyntio ar y thema '(Re)considering the Aristocracy and the Country House'. Bu Daisy hefyd yn cymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb gyda'i chyd-gyflwynwyr ar ôl y panel.

Gallwch ddarllen adroddiad llawn o'r trafodion ar wefan Grŵp Plastai PGCER yma.

**The group consists of over a hundred PhD researchers from universities, historic houses and arts institutions who are studying different aspects of the British country house. For their third annual conference the Group partnered with The National Gallery in London, providing members with an opportunity to present their research in the Gallery's main lecture theatre, and to representatives from The National Trust, English Heritage, The Attingham Trust, and The Paul Mellon Centre.**

**Daisy's research focuses on women and the country house; her doctoral project seeks to reconstruct and rebalance country house histories to fully include women and the roles they played, their importance, and their legacy, with a regional case study straddling Cheshire and north Wales. Her paper was entitled 'The Invisible Work of Feeling: Emotional Labour and Country House Women, 1600–1800', and was presented as part of the final panel of the day, which was on the theme of '(Re)considering the Aristocracy and the Country House'. Daisy also participated in a Q&A session with her fellow presenters after the panel.**

**You can read a full report of proceedings on the PGCER Country House Group website here.**




## Dr J. Gwilym Owen yn gwneud rhodd o lyfrau'r gyfraith i ISWE

## Dr J. Gwilym Owen gifts law books to ISWE

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n cydweithiwr a'n ffrind annwyl Dr J. Gwilym Owen, Uwch Ddarlithydd mewn Cyfraith Eiddo, Ecwiti ac Ymddiriedolaethau, a roddodd gasgliad o lyfrau yn hael i Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ym mis Rhagfyr. Bydd y llyfrgell hon o lyfrau hanes y gyfraith, cyfraith tir a chyfraith Cymru yn adnodd hynod ddefnyddiol i'n hymchwilwyr doethurol am flynyddoedd i ddod.

Anfonwn ein cariad, ein cefnogaeth a'n dymuniadau gorau at Gwilym ar yr adeg hon, a'n diolch diffuant am bopeth y mae wedi'i wneud dros Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru.

**We are ever so grateful to our dear colleague and friend Dr J. Gwilym Owen, Senior Lecturer in Property Law, Equity and Trusts, who generously gifted a collection of books to ISWE in December. This library of legal history, land law and Welsh law books will be an immensely useful resource for our doctoral researchers for years to come.**

**We send Gwilym our love, support and best wishes at this time, and our sincere thanks for everything that he's done for ISWE.**




## Ymchwil Gwydir wedi'i gyhoeddi ym Mwletin Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru

## Gwydir research published in Welsh Historic Gardens Trust Bulletin

Roedd hi'n bleser mawr derbyn bwletin diweddaraf Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru, sy'n cynnwys erthygl gan ein myfyrwraig raddedig, Dr Meinir Moncrieffe, o'r enw 'The

**We were thrilled to receive the latest Bulletin of the Welsh Historic Gardens Trust, which features an article by our very own ISWE graduate Dr Meinir Moncrieffe, entitled 'The**

Gardens of Gwydir Castle'. Mae gardd deg erw Gwydir yn Nyffryn Conwy yn cael ei chydnabod yn eang fel un o erddi pwysicaf Cymru. Nid yn unig y mae'n ardd restredig Gradd I, ond mae ganddi dros wyth deg o goed a warchodir.

**Gan gwmpasu dros bedwar cant o flynyddoedd mewn pum tudalen, mae erthygl ragorol Dr Moncrieffe yn amlygu natur aml-haenog yr ardd hon. Mae'n dechrau drwy archwilio gwreiddiau'r ardd yn yr unfed ganrif ar bymtheg, gan dynnu ar ymchwil doethurol Meinir ar Syr John Wynn o Gwydir (1553–1627), y gwnaeth hi ei gwblhau yn 2024. Mae'n disgrifio'r cyfuniad o diroedd pleser a gerddi cynhyrchiol a 'fframiodd y tŷ' ac a wasanaethodd fel lleoliad ar gyfer priodasau a gwleddoedd helaeth. Yn ddiweddarach yn yr erthygl, mae Meinir yn trafod gwaith y dylunwyr gerddi enwog Syr Charles Barry a Lewis Kennedy yn yr 1820au a'r 1830au, a oedd yn cynnwys creu dehongliad Fictoraidd nodedig o'r ardd bleser Tuduraidd yng Ngwydir. Rydym bob amser yn falch iawn o weld ein graddedigion yn rhannu eu hymchwil mewn cyhoeddiadau mor uchel eu parch ac yn cael eu cydnabod fel arbenigwyr yn eu meysydd.**

Mae rhifynnau blaenorol y bwletin ar gael i'w darllen yma.

**Gardens of Gwydir Castle'. The ten-acre garden of Gwydir in the Conwy Valley is widely recognised as one of the most important gardens in Wales. Not only is it Grade I listed, but it has over eighty protected trees.**

**Covering over four-hundred years in five pages, Dr Moncrieffe's excellent article illuminates the multi-layered nature of this garden. It begins by examining the garden's sixteenth-century origins, drawing on Meinir's doctoral research on Sir John Wynn of Gwydir (1553–1627), which she completed in 2024. It describes the combination of pleasure grounds and productive gardens which 'framed the house' and served as the setting for weddings and feasts galore. Later in the article, Meinir discusses the work of celebrated garden designers Sir Charles Barry and Lewis Kennedy in the 1820s and 1830s, which involved creating a distinctly Victorian interpretation of the Tudor pleasure garden at Gwydir. We are always delighted to see our graduates sharing their research in such esteemed publications and being recognised as experts in their fields.**

**Back issues of the bulletin are available to read here.**



## Erthygl ar Margam yn nghylchgrawn HistoryExtra

## Article on Margam in HistoryExtra magazine

Llongyfarchiadau i'n Swyddog Ymchwil ac Ymgysylltu a chyn-fyfyriwr Dr Bethan Scorey am gyhoeddi erthygl ar Margam yn rhifyn mis Mai o gylchgrawn HistoryExtra. Mae Bethan yn hanesydd pensaernïol sydd â diddordeb arbennig yn y plasty Cymreig. Roedd hi eisiau defnyddio ei herthygl yn adran 'Archwilio' y cylchgrawn i annog darllenwyr i ymweld â Chastell Margam a'r Parc ehangach, 'amgueddfa awyr agored go iawn'.

Mae'r erthygl yn edrych ar adeiladu'r Castell gan Christopher Rice Mansel Talbot (1803–1890) yn y 1830au; elfennau o'i gymeriad pensaernïol, gan gynnwys sut mae'n efelychu cartrefi hynafol y teuluoedd Talbot a Fox-Strangeway, sef Abaty Lacock yn Wiltshire a Thŷ Melbury yn Dorset; a chysylltiadau â diwydiant de Cymru. Da iawn Bethan!

**Congratulations to our Research & Engagement Officer and recent graduate Dr Bethan Scorey for publishing an article on Margam in the May edition of HistoryExtra magazine. Bethan's is an architectural historian with a particular interest in the Welsh country house. She wanted to use her article in the 'Explore' section of the magazine to encourage readers to visit Margam Castle and the wider Park, 'a veritable open air museum'.**

**The article looks at Christopher Rice Mansel Talbot's (1803–1890) construction of the Castle in the 1830s; elements of its architectural character, including how it emulated the Talbot and Fox-Strangeway families' ancestral homes, Lacock Abbey in Wiltshire and Melbury House in Dorset; and links to the industry of south Wales. Da iawn Bethan!**



## Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol

## Follow us on social media

Am bostiadau rheolaidd ar hanes, archifau a phlastai Cymru, dilynwch ni ar Facebook, Instagram a Bluesky.

**For regular posts on Welsh history, archives and country houses, follow us on Facebook, Instagram and Bluesky.**

## Gan ein partneriaid

## From our partners



**Plas Nannau mewn Perygl**

Ym mis Rhagfyr, datgelodd The Georgian Group eu rhestr blynyddol 'Top 10 Heritage at Risk List' ar gyfer 2025, sydd â'r slogan 'stop the rot' ac sy'n cynnwys Plas Nannau yn Llanfachreth, Gwynedd. Er gwaethaf ei statws rhestredig Gradd II*, mae'r plasty Neo-Glasurol wedi bod mewn cyflwr o ddirywiad cyflym ers 2020, pan gafodd plwm ei ddwyn o'r to gan arwain at ddifrod dŵr, ac mae mewn perygl difrifol o gael ei golli'n gyfan gwbl oni bai bod camau gweithredu'n cael eu cymryd ar unwaith.

Yn ein postiad blog diweddar, archwiliwyd arwyddocâd pensaernïol a hanesyddol y Plas a'r ystad ehangach. Gwnaethom hefyd siarad â Phillip Nannau Williams, disgynnydd o deulu Nannau ac awdur *Nannau: A Rich Tapestry of Wales*, a Thomas Lloyd, aelod o Fwrdd Ymgynghorol Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ac awdur *The Lost Houses of Wales*, y ddau ohonynt yn galarnadu am gyflwr presennol y tŷ.

Rhaid i ni weithio i greu dyfodol amgen i'r lle arbennig hwn ac mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn barod i weithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r gymuned leol fel rhan o'r ymdrech hon.

**Arian Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer Plas Gunter a Gregynog**

**Plas Nannau at Risk**

In December, The Georgian Group unveiled their annual 'Top 10 Heritage at Risk List' for 2025, which has the strapline 'stop the rot' and which features Plas Nannau in Llanfachreth, Gwynedd. Despite its Grade II*-listed status, the Neo-Classical mansion has been in an accelerated state of decline since 2020, when lead was stolen from the roof leading to water damage, and it is at serious risk of being lost altogether unless immediate action is taken.

In our recent blog post, we explored the architectural and historical significance of the Plas and wider estate. We also spoke to Phillip Nannau Williams, descendant of the Nannau family and author of *Nannau: A Rich Tapestry of Wales,* and Thomas Lloyd, ISWE Advisory Board member and author of *The Lost Houses of Wales*, both of whom lamented the present condition of the house.

We must work to carve out an alternative future for this special place and ISWE stands ready to work with Eryri National Park Authority and the local community as part of this endeavour.

**National Lottery Heritage Funding for Plas Gunter and Gregynog**

Hoffem longyfarch Ymddiriedolaeth Plas Gunter, sydd wedi derbyn Grant Cyflawni gwerth £3.3 miliwn yn ddiweddar gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol tuag at adnewyddu Plas Gunter yn y Fenni, Sir Fynwy. Mae gan y tŷ tref o'r ail ganrif ar bymtheg arwyddocâd crefyddol arbennig gan fod teulu Gunter yn ymarfer eu crefydd fel Catholigion Rhufeinig yn ystod y Diwygiad Protestannaidd; roedd ganddynt hyd yn oed gapel cyfrinachol yn yr atig. Mae hwn yn gyfnod cyffrous, gan y bydd y grant yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i agor Plas Gunter i'r cyhoedd am y tro cyntaf yn ei hanes 400 mlynedd!

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol hefyd wedi dyfarnu Grant Datblygu o ychydig o dan £900,000 i Ymddiriedolaeth Gregynog tuag at y project 'Codi'r To' yn Neuadd Gregynog yn Nhregynon, Sir Drefaldwyn. Mae Gregynog yn blasty gwledig o bwys cenedlaethol, sy'n fwyaf adnabyddus fel cyn gartref y chwiorydd Davies, Gwendoline a Margaret, a'i trawsnewidiodd yn ganolfan gelfyddydau yn yr 1920au. Roedd hefyd yn destun project ymchwil doethurol Dr Mary Oldham, un o fyfyrwyr doethurol y Sefydliad, a gwblhawyd yn 2024. Mae angen adnewyddu to'r Neuadd ar frys, a bydd y grant hwn yn cael ei ddefnyddio tuag at baratoi dyluniadau. Dymunwn y gorau i Ymddiriedolaeth Gregynog yn yr ymdrech hon.

### To Newydd i Gastell Sain Ffagan

Ddechrau'r flwyddyn hon, dechreuodd Amgueddfa Cymru broject uchelgeisiol i ailosod to Castell Sain Ffagan, y plasty gwledig rhestredig Gradd I o oes Elisabeth sydd wrth wraidd Amgueddfa Hanes Genedlaethol Sain Ffagan yng Nghaerdydd. Mae'r project, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys codi sgaffaldiau mawr ar bob ochr i'r tŷ ac amcangyfrifir y bydd yn cymryd dwy flynedd i gwblhau'r gwaith, er y bydd y Castell yn aros ar agor i ymwelwyr am y rhan fwyaf o'r cyfnod hwnnw. Mae Castell Sain Ffagan o ddiddordeb arbennig i Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru fel pwnc ymchwil doethurol ein myfyrwraig raddedig ddiweddar, Dr Bethan Scorey, a byddwn yn dilyn y project gyda chyffro a diddordeb.

### Cyllid ar gyfer Project Archif Cwrt Insole

O ran rhagor o newyddion ariannu, rydym yn falch o glywed bod ein ffrindiau yng Nghwrt Insole yng Nghaerdydd wedi derbyn cyllid ar gyfer eu project 'Datgelu Archif Cwrt Insole'. Dros y deunaw mis nesaf, byddant yn catalogio ac yn digideiddio eu harchif i'w gwneud yn hygyrch ar y safle ac ar-lein. Mae cynlluniau hefyd i drefnu rhaglen o ddigwyddiadau i ymgysylltu â chynulleidfa ehangach. Mae'r cyllid wedi'i ddyfarnu ar y cyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Ymddiriedolaeth y

We would like to extend our congratulations to the Plas Gunter Mansion Trust, who have recently been awarded a £3.3million Delivery Grant from the National Lottery Heritage Fund towards the renovation of Plas Gunter in Abergavenny, Monmouthshire. The seventeenth-century townhouse has special religious significance as the Gunter family were practicing Roman Catholics during the Protestant Reformation; they even had a secret chapel in the attic. This is an exciting time, as the grant will enable the Trust to open Plas Gunter to the public for the first time in its 400-year history!

The National Lottery Heritage Fund have also awarded a Development Grant of just under £900,000 to the Gregynog Trust, towards the 'Raise the Roof' project at Gregynog Hall in Tregynon, Montgomeryshire. Gregynog is a nationally important country house, best known as the former home of the Davies sisters, Gwendoline and Margaret, who transformed it into a hub of the arts in the 1920s. It was also the subject of our very own Dr Mary Oldham's doctoral research project, completed in 2024. The roof of the Hall is in urgent need of renewal, and this grant will be put towards the preparation of designs. We wish the Gregynog Trust all the best in this endeavour.

### New Roof for St Fagans Castle

At the beginning of this year, Amgueddfa Cymru commenced an ambitious project to replace the roof of St Fagans Castle, the Grade I-listed, Elizabethan country house at the heart of St Fagans National History Museum in Cardiff. The project, which is being funded by the Welsh Government, involves the erection of a large scaffolding on all sides of the house and is estimated to take two years to complete, though the Castle will remain open to visitors for most of this period. St Fagans Castle is of special interest to ISWE as the subject of our recent graduate Dr Bethan Scorey's doctoral research, and we will be following the project with excitement and interest.

### Funding for Insole Court Archive Project

In other funding news, we are pleased to hear that our friends Insole Court in Cardiff have been awarded funding for their project 'Insole Court Archive Revealed'. Over the next eighteen months, they will catalogue and digitise their archive to make it accessible both on site and online. There are also plans to organise a programme of events to engage a wider audience. The funding has been jointly awarded by the National Lottery Heritage Fund, The Pilgrim Trust, the Wolfson Foundation, and The

Pilgrim, Sefydliad Wolfson a'r Archifau Cenedlaethol. Edrychwn ymlaen at weld sut mae'r project yn datblygu.

### Project a ariennir gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC): 'Pushing the Boundaries of Medieval Wales'

Mae'n bleser mawr gennym gyhoeddi bod Dr Ben Guy, Athro Cynorthwyol mewn Celteg ym Mhrifysgol Caergrawnt ac arbenigwr ar iaith a llenyddiaeth Cymraeg yr Oesoedd Canol, wedi derbyn cyllid yn ddiweddar ar gyfer project tair blynedd newydd o'r enw '[Pushing the boundaries of early medieval Wales: An edition of the earliest Welsh charters]'. Bydd y project, sy'n mynd rhagddo mewn cydweithrediad â'n ffrindiau yng Nghomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHMW), yn cynhyrchu'r argraffiad a'r dadansoddiad cynhwysfawr cyntaf o'r tua 180 o siarteri Cymru sydd wedi goroesi o'r cyfnod canoloesol cynnar (tua 600–1000).

Nodwedd ryfeddol o siarteri Cymru yw eu bod yn cynnwys disgrifiadau manwl o ffiniau, a'r bwriad yw eu cymharu â mapiau ystadau a chau tiroedd diweddarach i gynhyrchu gwybodaeth newydd am ddatblygiad hanesyddol tirwedd Cymru. Rydym wrth ein bodd yn clywed y bydd y wybodaeth newydd hon ar gael am ddim mewn atlas hanesyddol ar-lein, a fydd yn cynnwys map digidol 3D. Heb os, bydd hyn yn adnodd amhrisiadwy i ni yn Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru.

### Lansio Ymgyrch Ariannu Castell Gwydir

Mae perchnogion Castell Gwydir, Peter Welford a Judy Corbett, wedi lansio ymgyrch gyhoeddus yn ddiweddar i godi arian tuag at waith atgyweirio brys i'r brif neuadd ganoloesol. Gyda'u postiadau rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol, mae Peter a Judy wedi meithrin dilyniant ledled y byd, ac maent wedi llwyddo i godi dros £12,000 ers mis Chwefror. O ganlyniad, maent wedi gallu dechrau cam cyntaf y gwaith, sy'n cynnwys ail-bwyntio gan ddefnyddio morter calch traddodiadol ac ailosod y gwaith plwm. Fodd bynnag, mae'r ymgyrch yn parhau, gan fod Peter a Judy yn gobeithio codi cyfanswm o £20,000 er mwyn diogelu dyfodol Gwydir a sicrhau mynediad i'r cyhoedd am genedlaethau i ddod.

### Plastai Cymru ar y Sgrin

Mae wedi bod yn hyfryd gweld sawl plasty gwledig ac atyniadau treftadaeth Cymru yn cael eu harddangos ar y teledu yn ddiweddar, gan gynnwys Tŷ Treberfydd yn Llangasty Tal-y-llyn, ger Aberhonddu, a ymddangosodd yn y gyfres Channel 4 'Saving Country Houses with

National Archives. We look forward to seeing how the project progresses.

### AHRC-funded Project 'Pushes the Boundaries of Medieval Wales'

We are excited to report that Dr Ben Guy, Assistant Professor in Celtic at the University of Cambridge and expert on medieval Welsh language and literature, has recently been awarded funding for a new three-year project called 'Pushing the boundaries of early medieval Wales: An edition of the earliest Welsh charters'. The project, which proceeds in collaboration with our friends at RCAHMW, will produce the first comprehensive edition and analysis of the approximately 180 Welsh charters which survive from the early medieval period (c.600–1000).

A remarkable feature of the Welsh charters is that they contain detailed descriptions of boundaries, and the intention is to compare these with later estate and enclosure maps to generate new knowledge about the historical development of the Welsh landscape. We are delighted to hear that this new knowledge will be made freely accessible in an online historical atlas, which will include a 3D digital map. This will no doubt be an invaluable resource for us at ISWE.

### Gwydir Castle Launch Funding Campaign

The owners of Gwydir Castle, Peter Welford and Judy Corbett, have recently launched a public fundraising campaign to raise money for emergency repair works to the medieval hall range. With their regular social media posts, Peter and Judy have built up a worldwide following, and they have succeeded in raising over £12,000 since February. As a result, they have been able to commence the first phase of work, which involves re-pointing using traditional lime mortar and replacing the leadwork. However, the campaign continues, as Peter and Judy are hoping to raise a total of £20,000 in order to safeguard Gwydir's future and ensure public access for generations to come.

### Welsh Country Houses on Screen

It has been wonderful to see several Welsh country houses and heritage attractions featured on television recently, including Treberfydd House in Llangasty Tal-y-llyn, near Brecon, which appeared in the Channel 4 series 'Saving Country Houses with Penelope Keith'. In this programme, Penelope visits country houses across Britain to learn more about the innovative ways that owners are generating income, from weddings to glamping to craft fairs.

Penelope Keith’. Yn y rhaglen hon, mae Penelope yn ymweld â phlastai gwledig ledled Prydain i ddysgu mwy am y ffyrdd arloesol y mae perchnogion yn cynhyrchu incwm, o briodasau i glampio i ffeiriau crefftau.

Mewn mannau eraill, ymddangosodd Castell Gwrych yn Abergele a Chastell y Gelli yn Y Gelli Gandryll yn y gyfres Sky HISTORY ‘Great British Castle Rescue’, sy'n dilyn y cyflwynydd Rick Edwards wrth iddo fentro i mewn i rai o gestyll mwyaf ysblennydd ac mewn perygl ym Mhrydain i gwrdd â'r arbenigwyr treftadaeth, peirianwyr a chrefftwyr sy'n rasio i achub yr adeiladau hyn.

### Diwrnod Rhyngwladol y Merched

Roedd hi’n bleser gweld cymaint o blastai gwledig Cymru’n defnyddio Diwrnod Rhyngwladol y Merched fel cyfle i hyrwyddo, trwy’r cyfryngau cymdeithasol, straeon sy'n ymwneud â bywydau a phrofiadau merched pwysig sy'n gysylltiedig â'u hanes.

Postiodd Parc Gwledig Margam am gyfraniad Olivia Emma Talbot (1842-94) at hanes yr ystad a datblygiad Port Talbot  Dathlodd Neuadd Bodrhyddan fywyd Georgina Shipley (tua 1755-1805), a astudiodd o dan Syr Joshua Reynolds ac a arddangosodd baentiadau yn yr Academi Frenhinol.  Ac fe wnaeth Chateau Rhianfa dynnu sylw at yr Arglwyddes Sarah Hay-Williams (1801-76) fel yr union reswm pam mae'r plasty gwledig hwn ar Ynys Môn yn bodoli.

Mae'n wych gweld cyfraniadau'r merched hyn yn cael sylw dyledus fel rhan o ddehongliad o safleoedd o'r fath.


Elsewhere, both Gwrych Castle in Abergele and Hay Castle in Hay-on-Wye featured in the Sky HISTORY series ‘Great British Castle Rescue’, which follows presenter Rick Edwards as he ventures inside some of Britain’s most spectacular and endangered castles to meet the heritage experts, engineers and craftspeople racing to save these buildings.

### International Women’s Day

We were delighted to see so many Welsh country houses using International Women’s Day as an opportunity to promote, via social media, stories relating to the lives and experiences of important women associated with their histories.

Margam Country Park posted on the contribution of Olivia Emma Talbot (1842-94) towards the history of the estate and development of Port Talbot.  Bodrhyddan Hall celebrated the life of Georgina Shipley (c.1755-1805), who studied under Sir Joshua Reynolds and exhibited paintings at the Royal Academy. And Chateau Rhianfa pointed to Lady Sarah Hay-Williams (1801-76) as the very reason why this Anglesey country house exists.

It’s brilliant to see the contributions of these women being given due prominence as part of the interpretation of such sites.



# Ar gyfer eich llyfrgell

### Rhifyn Newydd o Gyfres 'A History of Insole Court'

Mae Cwrt Insole wedi cyhoeddi trydydd rhifyn diwygiedig o'u harweinlyfr yn ddiweddar, sef *A History of Insole Court* gan Matthew Williams. Mae rhifyn newydd y llyfr wedi'i ailgynllunio'n llwyr, ac mae'n cynnwys ffotograffau newydd yn ogystal â ffotograffau ychwanegol o'r archif trwy garedigrwydd Grŵp Ymchwil Archif Cwrt Insole. Matthew Williams oedd Curadur Castell Caerdydd am 30 mlynedd; mae'n arbenigwr cydnabyddedig ar waith y pensaer Adfywiad Gothig William Burges ac mae'n darlithio'n helaeth ar bwnc dylunio Fictoraidd. Dathlodd Cwrt Insole gyda digwyddiad lansio yn ôl ym mis Ionawr, ac mae'r llyfr bellach ar gael i'w brynu ar y safle.

### Ystad yr Hafod ar ôl Thomas Johnes

Mae cyhoeddiad diweddaraf Cymdeithas Cofnodion De Cymru yn canolbwyntio ar ystad yr Hafod dan berchnogaeth y $4^{ydd}$ Dug Newcastle, tua 1832-46. Gan ddefnyddio dyddiaduron y Dug, mae'r golygydd Dr Richard A. Gaunt yn rhoi mewnwelediadau byw ar fywyd, gweithrediad a rheolaeth yr ystad a wnaed yn enwog gan Thomas Johnes yn y genhedlaeth flaenorol.

Am ragor o wybodaeth am y llyfr ewch i wefan Cymdeithas Cofnodion De Cymru.

# For your library

### New Edition of 'A History of Insole Court'

Insole Court has recently published a third, revised edition of their guidebook, *A History of Insole Court* by Matthew Williams. The new edition of the book is a complete redesign, and includes new photographs as well as additional archive photographs courtesy of the Insole Court Archive Research Group. Matthew Williams was the Curator of Cardiff Castle for 30 years; he is a recognised expert on the work of the Gothic Revival architect William Burges and lectures widely on the subject of Victorian design. Insole Court celebrated with a launch event back in January, and the book is now available to purchase on site.

### The Hafod Estate after Thomas Johnes

The latest publication of the South Wales Records Society focuses on the Hafod estate under the ownership of the $4^{th}$ Duke of Newcastle, c.1832-46. Using the diaries of the Duke, editor Dr Richard A. Gaunt provides vivid insights into the life, operation and management of the estate made famous by Thomas Johnes in the previous generation.

For more about the book visit the South Wales Records Society website.




# Cymuned ac Ymgysylltu

# Community and Engagement

**Seminarau Ymchwil Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru**

Ers cyhoeddi ein newyddlen ddiwethaf, mae Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru wedi cynnal tair seminar ymchwil wych ym Mhrifysgol Bangor, a oedd hefyd ar gael i'w gwylio ar-lein.

Ym mis Tachwedd, traddododd Dr Gareth Huws gyflwyniad hynod ddiddorol o'r enw ‘Teach Mór, Plasty, Mansion: a consideration of two Irish-Welsh estates’, a oedd yn ystyried perchnogaeth ystadau ledled Iwerddon a Chymru yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Defnyddiodd Dr Huws ffynonellau yn Archifau Prifysgol Bangor nad oeddent wedi eu harchwilio’n ddigonol hyd yn hyn i fynd i’r afael â chwestiynau megis a oedd perchnogion yn trin eu tenantiaid Cymraeg a Gwyddelig yn yr un ffordd? Ac a ystyriwyd ystadau o'r fath yn arbennig o Wyddelig neu'n arbennig o Gymreig?

Ym mis Rhagfyr, croesawyd Peter Sandford i Brifysgol Bangor o Brifysgol yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd yn yr Alban. Mae ymchwil doethurol Peter, sy'n cael ei gyd-oruchwylio gan Dr Lowri Ann Rees, yn canolbwyntio ar ymgyrchoedd gwrth-ddegwm ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a theitl ei gyflwyniad oedd ‘The Tithe

**ISWE Research Seminars**

Since the publication of our last newsletter, ISWE has hosted three fantastic research seminars at Bangor University, which were also made available for viewing online.

Back in November, Dr Gareth Huws delivered a fascinating presentation entitled ‘Teach Mór, Plasty, Mansion: a consideration of two Irish-Welsh estates’, which considered the ownership of estates across Ireland and Wales in the eighteenth and nineteenth century. Dr Huws used hitherto under-explored source material at Bangor University Archives to address questions such as did the owners treat their Welsh and Irish tenants in the same way? And were such estates considered to be particularly Irish or particularly Welsh?

In December, we welcomed Peter Sandford to Bangor from the University of the Islands and Highlands in Scotland. Peter’s doctoral research, which is co-supervised by Dr Lowri Ann Rees, focuses on the anti-tithe campaigns of the latter half of the nineteenth century, and his presentation was titled ‘The Tithe War in North and South-West Wales 1886–1895’.

War in North and South-West Wales 1886–1895'.

Cynhaliwyd ein seminar ymchwil ddiweddaraf ym mis Chwefror, pan gyflwynodd Dr Marian Gwyn, Cydymaith Ymchwil er Anrhydedd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, sgwrs yn dwyn y teitl 'Textiles as Exploitation: Clothing, Commerce & Control on the Penrhyn Jamaica Plantations'. Ar hyn o bryd mae Dr Gwyn yn paratoi llyfr yn seiliedig ar Bapurau Jamaica yn archif ystad Penrhyn, a gedwir yn adran Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor, ac roedd yn hyfryd clywed am ei hymchwil parhaus.

**Ymchwil Castell Powys yn Cael ei Gyflwyno i Gymdeithas y Cymmrodorion**

Ym mis Chwefror, traddododd Cydymaith Ymchwil er Anrhydedd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, Dr Melvin Humphreys, Ddarlith Goffa June Gruffydd i Gymdeithas Anrhydeddus y Cymmrodorion, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Montgomery, yn y Gymdeithas Feddygol yn Llundain. Ar hyn o bryd mae Dr Humphreys yn casglu hanes ystadau Powys, a'r ymchwil hwn oedd sail ei ddarlith o'r enw 'Powis Castle: Exploring Myths from the 18th Century'. Gallwch wylio recordiad o'r ddarlith ar wefan y Cymmrodorion.

**'The Great Welsh Land Case'** yn cael ei archwilio mewn darlith yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Ym mis Mawrth, gwahoddwyd Murray Ll. Chapman i Lyfrgell Genedlaethol Cymru i draddodi darlith ar 'The Great Welsh Land Case'. Wedi'i ddechrau gan Syr Edward Herbert yn fuan ar ôl iddo gaffael Barwniaeth Powys yn 1587, roedd hwn yn achos arwyddocaol a sefydlodd ei hawliau dros y tiroedd comin a diffaith a leolir ym mhob un o'r trefgorddau yn y farwniaeth. Gosododd dyfarniad yr achos gynsail hefyd a fyddai'n cael ei ddefnyddio ledled cylchdeithiau Cymru. Ymchwiliodd sgwrs Murray i gefndir yr achos, y prif unigolion dan sylw, a'i effaith barhaol ar hanes cyfreithiol Cymru.

Mae recordiad o'r sgwrs ar gael i'w wylio ar Sianel YouTube Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Cwrs Byr yn Archwilio Tirnodau Hanesyddol Gogledd Cymru**

Ym mis Chwefror a mis Mawrth cynhaliwyd cwrs byr pedair wythnos rhad ac am ddim ym Mhrifysgol Bangor, a oedd yn archwilio tirnodau hanesyddol Cymru. Yn y sesiwn gyntaf, trafododd Dr Euryn Roberts lys canoloesol

Our most recent research seminar took place in February, when ISWE's Honorary Research Associate, Dr Marian Gwyn, presented on 'Textiles as Exploitation: Clothing, Commerce & Control on the Penrhyn Jamaica Plantations'. Dr Gwyn is currently preparing a book based on the Jamaica Papers in the Penrhyn estate archive, held at Bangor University Archive and Special Collections, and it was wonderful to hear about her ongoing research.

**Powis Castle Research Presented to the Cymmrodorion Society**

In February, ISWE's Honorary Research Associate, Dr Melvin Humphreys, delivered the June Gruffydd Memorial Lecture for The Honourable Society of Cymmrodorion, in association with the Montgomery Society, at The Medical Society in London. Dr Humphreys is currently compiling a history of the Powis estates, and this research formed the basis of his lecture titled 'Powis Castle: Exploring Myths from the 18th Century'. You can watch a recording of the lecture on the Cymmrodorion website.

**'The Great Welsh Land Case' Explored in National Library of Wales Lecture**

In March, Murray Ll. Chapman was invited to the National Library of Wales to deliver a lecture on 'The Great Welsh Land Case'. Initiated by Sir Edward Herbert shortly after he acquired the Barony of Powis in 1587, this was a significant case that established his rights over the common and waste lands located within each of the townships in the barony. The case judgement also set a precedent that was to be used throughout the Welsh circuits. Murray's talk delved into the background of the case, the principal figures involved, and its lasting impact on Welsh legal history.

A recording of the talk is available to view on the National Library of Wales's YouTube channel.

**Short Course Explores the Historic Landmarks of North Wales**

February and March saw the delivery of a free, four-week short course exploring the historic landmarks of Wales at Bangor University. In the first session, Dr Euryn Roberts discussed the medieval Welsh llys (princely court) as a centre of power, governance, culture, and daily life in medieval Wales. The second session was delivered by ISWE's Director Dr Shaun Evans on the theme 'Estates, Monuments and the Making of the Welsh Landscape', which considered how the gentry fashioned the landscapes and townscapes of Wales, through

Cymru (llys tywysogaidd) fel canolfan pŵer, llywodraethu, diwylliant a bywyd bob dydd yng Nghymru yn y canol oesoedd. Cyflwynwyd yr ail sesiwn gan Gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, Dr Shaun Evans, ar y thema 'Estates, Monuments and the Making of the Welsh Landscape', a oedd yn ystyried sut y lluniodd y bonedd dirweddau a threfweddau Cymru, drwy adeiladu colofnau mawreddog, obelisgau, clocdyrau, ffynhonnau yfed a ffoliïau. Dilynwyd hyn gan sesiwn ar isadeileddau gan Dr Karin Koehler ac un arall ar ystyr graffiti ar dirnodau gan Dr Karen Pollock.

**Archwilio Gorffennol a Dyfodol Eryri mewn Darlith Flynyddol yr Archifau**

Rydym yn hynod falch o'n hymchwilydd doethurol Alex Ioannou, a wahoddwyd i roi Darlith Flynyddol adran Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor ym mis Tachwedd.

Teitl darlith Alex oedd 'Challenging time(s): Exploring how we shape the past and future of Eryri through the exchange of material culture'. Rhoddodd gipolwg diddorol ar ei broject ymchwil doethurol rhyngddisgyblaethol, sy'n ceisio cysylltu trafodaethau cyfredol am newid tirwedd â'r gorffennol, trwy gyfuniad o ymchwil hanesyddol yn yr archifau a gweithgareddau ymgysylltu a chyfnewid gwybodaeth yn y presennol, a hynny i gyd yn ei ardal astudiaeth achos, sef Dyffryn Ogwen.

Ers ymuno â ni yn Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, mae Alex wedi ymgolli'n llwyr yn yr Archifau, gan gynnwys ei swydd fel Cynorthwyydd Ymchwil a Digideiddio ar y project a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i ddigideiddio Papurau Jamaica o fewn casgliad Ystad y Penrhyn. Drwy ei ymchwil, ei gydweithio, ei greadigrwydd a'i ofal mae wedi taflu goleuni ar sut y gall deunydd archifol gyfrannu'n ystyrlon at rai o brif heriau a phroblemau heddiw.

**Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ar Grwydr**

Mae ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gymuned yn wirioneddol bwysig i'n hunaniaeth fel canolfan ymchwil ac rydym yn annog ein myfyrwyr doethurol i rannu eu hymchwil yn eang.

Ym mis Hydref, aeth Anna Reynolds gyda Dr Mari Wiliam i Borthaethwy, lle buont yn rhoi sgwrs i gangen Gwynedd Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru am broject hanes llafar sy'n mynd rhagddo i gofnodi atgofion cyn-arddwyr a garddwyr presennol Gerddi Bodnant. Hefyd ym mis Hydref, siaradodd Jeff Childs â Chymdeithas Archaeoleg Ddiwydiannol De-orllewin Cymru am deuluoedd bonheddig Arglwyddiaeth Gŵyr, pwnc ei ymchwil doethurol.

the construction of grand columns, obelisks, clocktowers, drinking fountains and follies. This was followed by a session on infrastructures by Dr Karin Koehler and another on the meaning of graffiti on landmarks by Dr Karen Pollock.

**Past and Future of Eryri Explored in Archives Annual Lecture**

We are ever so proud of our doctoral researcher Alex Ioannou, who was invited to give the Bangor University Archives and Special Collections Annual Lecture in November.

The title of Alex's lecture was 'Challenging time(s): Exploring how we shape the past and future of Eryri through the exchange of material culture'. It provided a fascinating insight into his interdisciplinary doctoral research project, which seeks to connect current discussions about landscape change with the past, through a combination of historical research in the archives and engagement and knowledge-exchange activities in the present, all in his case study area of Dyffryn Ogwen.

Since joining us at ISWE, Alex has fully immersed himself in the Archives, including as Research and Digitisation Assistant on the Welsh-government funded project to digitise the Jamaica Papers within the Penrhyn Estate collection. Through his research, collaboration, creativity and care he has shone a light on how archival material can contribute meaningfully to some of the major challenges and issues of the present day.

**ISWE Out and About**

Public and community engagement is really important to our identity as a research centre and we encourage our doctoral cohort to share their research far and wide.

In October, Anna Reynolds accompanied Dr Mari Wiliam to Menai Bridge, where they gave a talk to the Gwynedd branch of the Welsh Historic Gardens Trust about an ongoing oral history project to capture memories of gardeners past and present at Bodnant Gardens. Also in October, Jeff Childs spoke to the South West Wales Industrial Archaeology Society about the gentry families of the Lordship of the Gower, the subject of his doctoral research. Jeff is also scheduled to give a talk to Baglan Men's Society and another as part of Swansea Central Library's Local Studies series.

At the beginning of this year, Ieuan Wyn Jones delivered a lecture on Thomas Edward Ellis MP, the subject of his doctoral research, to a packed Canolfan y Plase in Bala. In March Vic Tyler-Jones entertained the Friends of Wrexham Museum with a talk about his doctoral research

Bydd Jeff hefyd yn rhoi sgwrs i Gymdeithas Dynion Baglan ac un arall fel rhan o gyfres Astudiaethau Lleol Llyfrgell Ganolog Abertawe.

Ar ddechrau'r flwyddyn hon, traddododd Ieuan Wyn Jones ddarlith am Thomas Edward Ellis AS, pwnc ei ymchwil doethurol, yng Nghanolfan y Plase yn y Bala, a oedd yn llawn dop. Ym mis Mawrth, diddanodd Vic Tyler-Jones Gyfeillion Amgueddfa Wrecsam gyda sgwrs am ei ymchwil doethurol ar anheddiad o sgwatwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Fynydd y Drenewydd, a bydd yn siarad â Chymdeithas Hanes Brychdyn y mis hwn.

**Gŵyl Hanes Bangor**

Ym mis Hydref, cydweithiodd Prifysgol Bangor â Chyngor Dinas Bangor, Amgueddfa Storiel a Chadeirlan Bangor i lansio Gŵyl Hanes Bangor, a gynhaliwyd dros ddau ddiwrnod. Ar y dydd Sadwrn cafwyd diwrnod llawn o weithdai, trafodaethau, arddangosfeydd rhyngweithiol a sgyrsiau gwadd ar draws pedwar lleoliad. Traddodwyd y prif sgyrsiau ddydd Sadwrn a dydd Sul gan ddau o haneswyr, awduron a darlledwyr blaenllaw Prydain – Greg Jenner a'r Athro Kate Williams.

Cynrychiolwyd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn yr Ŵyl gan Dr Shaun Evans, a roddodd sgwrs o'r enw 'When did the gentry lose their Welsh?', a archwiliodd y berthynas rhwng y bonedd a'r Gymraeg. Er gwaethaf dirywiad hirdymor diamheuol y Gymraeg, canfu Shaun fod nifer o dirfeddianwyr wedi cadw galluoedd yn y Gymraeg a chysylltiadau â'r iaith ymhell i mewn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

on the nineteenth-century squatter settlement on Newtown Mountain, and will be talking to the Broughton History Society this month.

**Bangor History Festival**

Back in October, Bangor University collaborated with Bangor City Council, Storiel Museum and Bangor Cathedral to launch the two-day Bangor History Festival. The Saturday saw a full day of workshops, discussions, interactive exhibitions and guest talks across four locations. The headline talks on Saturday and Sunday were delivered by two of Britain's leading historians, authors and broadcasters – Greg Jenner and Professor Kate Williams.

ISWE was represented at the Festival by Dr Shaun Evans, who gave a talk titled 'When did the gentry lose their Welsh?', which explored the relationship between the landed gentry and the Welsh language. Notwithstanding an undeniable long-term trajectory of Welsh-language decline, Shaun found that several landowners retained Welsh-language abilities and affinities well into the nineteenth century.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Mae croeso i chi gysylltu gyda'r Brifysgol yn Gymraeg neu Saesneg
You are welcome to contact the University in Welsh or English
**Elusen Gofrestredig / Registered Charity No. 1141565**

Bangor University
Ffordd y Coleg Bangor LL57 2DG